# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 11/11/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

### Dyraniad Cyllid

**C9 Dai Lloyd:** Pa ystyriaeth mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gynyddu'r dyraniad cyllid cyffredinol ar gyfer portffolio'r amgylchedd, cynaliadwyedd a thai? OAQ(3)0853(FPS)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Yn ystod y gwaith paratoi ar gyfer cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad, yr wyf wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda'r Gweinidogion eraill am y blaenoriaethau, y pwysau a'r cyfleoedd o fewn eu portffolios. Gwelwyd cynnydd o 5.4 y cant yn y dyraniad refeniw ar gyfer portffolio'r amgylchedd, cynaliadwyedd a thai ar gyfer 2010-11 o'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2009-10.

### Cyllid Ychwanegol

**C10 Leanne Wood:** Pa sylwadau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol i bortffolio'r amgylchedd cynaliadwyedd a thai er mwyn gwella mesurau amddiffyn rhag llifogydd? OAQ(3)0875(FPS)

**Andrew Davies:** Yn dilyn trafodaethau gyda Gweinidogion y Cabinet yn ystod y broses o baratoi'r gyllideb ac ar ôl sicrhau nifer o arbedion effeithlonrwydd, dyrannwyd £800,000 ychwanegol ar gyfer delio â pherygl llifogydd.

### Cyllideb Materion Gwledig

**C11 Mick Bates :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o arian a ddyrennir ar gyfer y gyllideb materion gwledig yn y flwyddyn ariannol nesaf? OAQ(3)0863(FPS)

**Andrew Davies:** Y dyraniad ar gyfer portffolio materion gwledig yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 yw tua £136 miliwn refeniw a thua £17 miliwn cyfalaf.

### Blaenoriaethau

**C12 Jenny Randerson**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ei flaenoriaethau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(3)0851(FPS)

**Andrew Davies:** Mae cyllideb ddrafft 2010-11 yn darparu'r seiliau ar gyfer y gwaith parhaus

gyda'n partneriaid er mwyn helpu i ddarparu a gwella'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl, ac yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, yn dibynnu arnynt.

### Dyraniad Cyffredinol yn y Gyllideb Ddrafft

**C13 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyffredinol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11 i bortffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? OAQ(3)0856(FPS)

**Andrew Davies:** Y dyraniad ar gyfer y portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 yw tua £1.69 biliwn refeniw a thua £183 miliwn cyfalaf.

### Cyfrifiad

**C14 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnwys y cyfrifiad nesaf yng Nghymru? OAQ(3)0864(FPS)

**Andrew Davies:** Cyhoeddwyd y Gorchymyn cyfrifiad drafft ar 21 Hydref ac mae'n pennu'r cwestiynau sydd i'w gofyn yn y cyfrifiad nesaf. Bydd yn cynnwys cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol a fydd yn caniatáu i bobl nodi eu bod yn Gymry, beth bynnag y bo'u cefndir ethnig.

### Dyraniad Cyllid

**C15 Gareth Jones :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid cyffredinol i bortffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol?(3)0876(FPS)

**Andrew Davies:** Y dyraniad ar gyfer portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 yw tua £4.4 biliwn refeniw a thua £78 miliwn cyfalaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Blaenoriaethau ar gyfer y Chwe Mis Nesaf

**C10 Nerys Evans :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1091(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Bydd blaenoriaethau allweddol 'Cymru'n Un' ar gyfer addysg yn parhau i gael eu cyflawni, er enghraifft cefnogaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen, mesurau i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad, cwnsela mewn ysgolion, y strategaeth cymorth ieuenctid ac addysg cyfrwng Cymraeg.

### Blaenoriaethau ar gyfer y Chwe Mis Nesaf

**C11 Irene James** : A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1077(CEL)

**Jane Hutt:** Bydd blaenoriaethau allweddol 'Cymru'n Un' ar gyfer addysg yn parhau i gael eu cyflawni, er enghraifft cefnogaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen, mesurau i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad, cwnsela mewn ysgolion, y strategaeth cymorth ieuenctid ac addysg cyfrwng Cymraeg.

### Darpariaeth Addysg yn y Rhyl

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg yn ardal y Rhyl? OAQ(3)1125(CEL)

**Jane Hutt:** Cyngor Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am gynllunio'r ddarpariaeth gynradd ac uwchradd yn y Rhyl. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal chwe ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd yn y dref, gan gynnwys un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir a hynny ar lefel gynradd ac uwchradd. Mae darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gael yn Llanelwy.

### Pobl Ifanc sy'n Gadael Ysgol

**C13 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r wybodaeth ar sail sgiliau sydd gan bobl ifanc sy'n gadael ysgol? OAQ(3)1107(CEL) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau***

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Yr ydym eisoes yn rhoi ar waith nifer o fentrau cydgysylltiedig er mwyn cynyddu lefel sgiliau'r rhai sy'n gadael yr ysgol. Mae datblygu sgiliau yn dechrau yn y cyfnod sylfaen ac yn parhau drwy'r cwricwlwm ysgol, TGAU diwygiedig, llwybrau dysgu 14-19 a chymhwyster bagloriaeth Cymru. Mae gwella dulliau dysgu a'r strategaeth sgiliau sylfaenol hefyd yn cefnogi llythrennedd a rhifedd.

### Gwella Adeiladau Ysgolion

**C14 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer gwella adeiladau ysgol yng Nghymru? OAQ(3)1105(CEL)

**Jane Hutt:** Yr oedd fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror yn nodi fy nghynigion i ddatblygu rhaglen fuddsoddi cyfalaf strategol hirdymor mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol a fydd yn cyflawni pob un o'u rhaglenni ailadeiladu neu ailwampio.

### Blaenoriaethau ar gyfer y Chwe Mis Nesaf

**C15 Nick Bourne**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1106(CEL)

**Jane Hutt:** Bydd blaenoriaethau allweddol 'Cymru'n Un' ar gyfer addysg yn parhau i gael eu cyflawni, er enghraifft cefnogaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen, mesurau i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad, cwnsela mewn ysgolion, y strategaeth cymorth ieuenctid ac addysg cyfrwng Cymraeg.